# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 09.03.15

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr, Annwen Hughes, Louise Hughes, Llywarch Bowen Jones, W.Tudor Owen, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones Williams, Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Eddie Dogan a Dilwyn Lloyd.

Talwyd teyrnged gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams i'r ddiweddar Gynghorydd Huw Edwards, cyn-gadeirydd y Cyngor, Is-gadeirydd ac aelod ffyddlon o'r Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau Trwyddedu. Cydymdeimlwyd â'i deulu yn eu profedigaeth.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Amlygwyd pryder ynglŷn ag aelodaeth Cynghorydd, gyda buddiant personol, ar y Pwyllgorau Trwyddedu. Nodwyd bod y mater wedi cael ei amlygu mewn pwyllgorau blaenorol a mynegwyd siom nad oedd unrhyw weithrediad wedi bod ar y mater yn y chwe mis diwethaf. Ategwyd bod y pryder yma yn rhoi pwysau ychwanegol ar aelodau'r Pwyllgor.

Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd bod y mater wedi ei drafod gydag Arweinydd y Blaid Annibynnol gan mai cyfrifoldebau'r pleidiau gwleidyddol yw penodi unigolyn ar bwyllgor - sedd i'r grŵp sydd yn cael ei gynnig.
Yn ychwanegol, nodwyd bod angen adolygu presenoldeb aelodau mewn pwyllgorau. Rhaid sicrhau bod pob Cynghorydd yn derbyn bod cyfrifoldeb arnynt i fynychu'r pwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt.

**PENDERFYNWYD AMLYGU'R PRYDERON UCHOD, DRWY'R CYFREITHIWR, I'R SWYDDOG MONITRO A PHENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD.**

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar yr 8fed o Ragfyr 2015, fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 08.12.2014 a 17.12.2014.

## 6. ADDASU POLISI TRWYDDEDU Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio yn amlygu canllawiau diweddar gan yr Ysgrifennydd Cartref ynglŷn â lefel dirprwyo mewn perthynas â rhai cyfrifoldebau trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003. Nodwyd bod y trefniadau dirprwyo a amlinellir yn y canllawiau diweddaraf yn cadarnhau'r drefn dirprwyo ar gyfer tri mater ychwanegol.

Argymhellwyd bod y Pwyllgor yn cymeradwyo addasu pennod 12 o'r Polisi yn unol â Chanllawiau a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Fe fyddai mabwysiadu'r argymhelliad yn golygu bod yr Is-bwyllgor yn penderfynu ar gais i amrywio trwydded eiddo mewn adeilad cymunedol i gynnwys amod trwydded arall os bydd sylwadau wedi eu derbyn gan yr Heddlu, neu'n cael ei benderfynu gan Swyddogion lle nad oes sylwadau Heddlu wedi eu derbyn.

Fe fyddai mabwysiadu'r argymhelliad yn golygu bod Swyddogion yn penderfynu a ddylid ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol eraill ar fân amrywiadau i gais. Bydd penderfynu ar amrywiad mân i gais yn cael ei wneud gan swyddogion.

Nodwyd bod y canllawiau wedi eu hargymell ym mis Hydref 2014 ac y byddant yn dod i rym yng Ngwynedd Mawrth 10fed 2015.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO ADDASIADAU I PENNOD 12 O'R POLISI YN UNOL Â CHANLLAWIAU A GYFLWYNWYD GAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL.**

## 7. ADDASIAD I DDEDDF TRWYDDEDU 2003 – GORCHYMYN DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL (TRWYDDEDU ADLONIANT) 2014

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Rheoleiddio, er gwybodaeth yn nodi newidiadau eithaf sylweddol i weithgareddau a ystyrir fel adloniant wedi ei reoleiddio. Bydd y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Trwyddedu Adloniant) yn diwygio Atodiad 1 ac adran 177A Deddf Trwyddedu 2003 fel nad oes angen i adloniant wedi'i reoleiddio gael ei awdurdodi dan y Ddeddf, mewn rhai amgylchiadau. Nodwyd y byddai'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol yn dod i rym ar 6 Ebrill 2015.

Tynnwyd sylw penodol i'r newidiadau gyda phwyslais arbennig ar baragraff 2.2 o'r adroddiad sydd yn nodi;

*'Nid oes angen trwydded rhwng 8am ac 11pm ar unrhyw ddiwrnod, heb unrhyw gyfyngiad ar nifer y gynulleidfa i unrhyw adloniant sy'n digwydd ar*

***eiddo'r awdurdod lleol*** *os yw'n adloniant sy'n cael ei ddarparu gan neu ar ran yr awdurdod lleol'*

Eglurwyd bod hyn yn cynnwys, er enghraifft, ysgolion, canolfannau hamdden, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, Y Maes Caernarfon a Pencei Porthmadog (cyfanswm 107 o drwyddedau). Nodwyd bod pob trwydded ysgol yn 24awr, a bod yr Adran Addysg yn berchen pob trwydded.

Cynigiwyd bod yr Adran Trwyddedu yn cysylltu gyda'r Adran Addysg i amlygu'r newidiadau iddynt ynghyd a'r amodau (tu allan i oriau yn unig) – nid yw yn ofynnol gwneud hyn, ond yn ymarfer da. Nodwyd bod potensial i arbed £16k y flwyddyn mewn taliadau trwyddedau. Gwnaed cais pellach i ysgrifennu hefyd i'r Adran Economi a Chymuned, ac i Gynghorau Cymuned er mwyn sicrhau neges cyson i bawb.

Diolchwyd am y wybodaeth ar eglurhad clir.

**PENDERFYNWYD I'R ADRAN TRWYDDEDU AMLYGU'R NEWIDIADAU YNGHYD AR AMODAU I'R ADRAN ADDYSG, ADRAN ECONOMI A CHYMUNED A CHYNGHORAU CYMUNED.**

**8. TELEDU CYLCH CYFYNG (TCC)**

Anogwyd trafodaeth i dderbyn barn y Pwyllgor ar beth all ei wneud i sicrhau bod amodau Teledu Cylch Cyfyng (TCC) yn cael eu gweithredu. Yn dilyn digwyddiadau yn Abermaw lle adroddodd yr Heddlu nad oedd TCC yn gweithio, trafodwyd yr angen i fonitro a chosbi os nad yw'r amod yn cael ei weithredu gan mai un o brif egwyddorion yr Is-Bwyllgorau yw gwarchod y cyhoedd.

Amlygwyd bod gan yr Is Bwyllgor hawl i osod yr amodau ar drwyddedau, ond nad oedd ganddynt hawliau dros weithredoedd yr Heddlu. Amlygwyd hefyd bod Swyddogion Gorfodaeth o fewn yr Uned Trwyddedu, ond dim capasiti i fonitro pob eiddo.

Atgoffwyd yr aelodau os bydd amod yn cael ei thorri, bod gan y Cynghorwyr neu'r Heddlu'r hawl i wneud cais am adolygiad o'r drwydded.

Materion yn codi o'r drafodaeth:

- Holwyd os byddai'n bosib cysylltu camerâu â system yr Heddlu.
- Bod y Pwyllgor yn credu y byddai'n syniad da bod pob eiddo yn cadw log ymarferol o wirio eu system TCC
- Gwnaed cais am wybodaeth bellach o beth yw polisi'r heddlu i fonitro TCC
- Gwnaed cais am restr o leoliadau gyda TCC i aelodau'r Pwyllgor.
- Bod rhybudd yn cael ei gynnwys gyda'r amod o'r oblygiadau petai TCC ddim yn gweithio ar eiddo
-

**PENDERFYNWYD GWNEUD CAIS I'R HEDDLU AM WYBODAETH YNGLŶN Â POLISI MONITRO TELEDU CYLCH CYFYNG.**

**9. HYFFORDDIANT**

Cynhaliwyd sesiwn i ddiweddaru'r Aelodau ar eu cyfrifoldebau wrth wasanaethau ar is-bwyllgorau trwyddedu gan yr Uwch Gyfreithiwr.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m a daeth i ben am 11:25am